**Y Pwyllgor Cyllid**
**Finance Committee**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Ann Jones AC
Cadeirydd y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

18 Mehefin 2013

Annwyl Ann,

Fel y gwyddoch, clywodd y Pwyllgor Cyllid dystiolaeth gan Leighton Andrews AC, y Gweinidog Addysg a Sgiliau, yn ein cyfarfod ar 12 Mehefin, pan fuom yn ystyried rhai o'r materion ariannol yng nghyswllt y Bil Addysg Bellach ac Uwch (Llywodraethu a Gwybodaeth) (Cymru).

Er ein bod wedi'n hargyhoeddi fod angen deddfwriaeth i ddychwelyd y sector i ddosbarthiad gwreiddiol y Swyddfa Ystadegau Gwladol, mae gennym bryderon o hyd ynghylch bwriad y Gweinidog mewn cysylltiad â rheolaethau anneddfwriaethol ar y sector. Dywedodd y Gweinidog, 'We may need to look at the financial memorandum and conditions of funding', a chytunodd i ddarparu nodyn i'r Pwyllgor Cyllid; dywedodd: 'The key element will be around borrowing.'

Mae'r Pwyllgor Cyllid yn argymell y dylai'r Gweinidog a'r Swyddfa Ystadegau Gwladol sicrhau eu bod yn cytuno ar ddiffiniad o 'reolaethau anrheoliadol' er mwyn sicrhau bod y ddeddfwriaeth arfaethedig hon yn cyflawni'r diben a fwriadwyd.

Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA
Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1NA
Ffon/Tel: 029 2089 8164
Ebost/Email: gareth.price@cymru.gov.uk

**Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg/We welcome correspondence in both English and Welsh**

Diolch am fy ngwahodd i ddod i sesiwn o’r Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc wrth ichi ddod i ddiwedd eich trafodaethau ar y bil.

**Yn gywir**



**Jocelyn Davies AC**
**Jocelyn Davies AM**